CYPE(6)-07-21 – Papur i'w nodi 1

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

12Tachwedd 2021

Annwyl Paul

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Hydref ynghylch melinau traethodau. Cytunaf fod melinau traethodau yn hwyluso llên-ladrad, yn manteisio ar fyfyrwyr bregus ac yn gallu normaleiddio twyllo. Rwyf hefyd yn cydnabod bod rhywfaint o ymchwil wedi dangos y gallai myfyrwyr sy'n defnyddio melinau traethodau fod yn agored i flacmel. Mae'n amlwg bod y gwasanaethau twyllo hyn yn fygythiad i uniondeb ac enw da addysg brifysgol.

Efallai eich bod yn ymwybodol bod Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn mynd ar drywydd datblygu rhwydwaith uniondeb ac asesu academaidd yng Nghymru. At hynny, lansiodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) y Siarter Uniondeb Academaidd ym mis Hydref 2020. Yng ngeiriau'r QAA ei hun, bwriedir i'r siarter ddarparu sylfaen y gall darparwyr y DU, fel sefydliadau annibynnol, ei defnyddio i adeiladu eu polisïau a'u harferion eu hunain i sicrhau bod cymhwyster pob myfyriwr yn ddilys, yn wiriadwy ac yn cael ei barchu. Rwy’n arbennig o falch bod pob prifysgol yng Nghymru wedi llofnodi'r siarter, gan ddangos eu hymrwymiad i'r mater hwn.

Cytunaf y byddai dull gweithredu ledled y DU yn synhwyrol ac rydym wedi bod yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y mater hwn, ac mae swyddogion o bob un o'r pedair llywodraeth wedi cwrdd i’w drafod. Fodd bynnag, nid oedd bwriad i ddeddfu ar gyfer Cymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon yn y Mesur Sgiliau ac Addysg Ôl-16 sydd ar y gweill. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill i weld a oes modd cael ateb ar gyfer y DU gyfan. Rwyf hefyd yn ystyried sut y gallwn ni yng Nghymru fynd i'r afael â'r broblem hon ochr yn ochr â dull gweithredu ar gyfer y pedair gwlad neu os nad yw dull o’r fath yn bosibl ar hyn o bryd.

Rwy'n gobeithio bod yr uchod wedi helpu i egluro fy safbwynt ar y mater pwysig hwn ac rwy’n gobeithio y bydd gennyf fwy i’w ddweud maes o law.

Yn gywir

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.